CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd yn yr Hen Lys a thrwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 23 Ionawr 2023 am 7:00pm.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Menna Jones (Maer),
Cynghorwyr Anne Roberts, Heather Williams, Jabez Oakes, Ian Lewney, Stephen Beach, Christine Ellis, Rosie Hughes-Anderson, Rachel Ryland, Dafydd Hughes, Lisa Thomas, Gavin Harris, Peter Daniels a Mike van der Eijk.
Cynghorwyr Sir, Bobby Feeley, Emrys Wynne a Huw Hilditch-Roberts.

YN BRESENNOL: Iolo Williams – Clerc y Dref
Kate Harcus – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys
Marian Rees – Cyfieithydd

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Cynghorydd Menna Jones, y Maer y cynghorwyr a'r sylwedyddion. Roedd hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad fod y prosiectau yn Rhuthun wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau'r grantiau o'r Gronfa Ffyniant Bro. Croesawodd Iolo Williams, y Clerc newydd i'w gyfarfod llawn cyntaf o'r Cyngor Tref. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Oliver Bradley Hughes

2. DATGAN BUDDIANNAU

- Ni chafwyd datganiadau o fuddiant

3. ADRODDIAD Y MAER

Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Rhagfyr 2022.
PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

4. ADRODDIADAU'R AELODAU

Trafododd yr Aelodau adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r agenda.
PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiadau'r Aelodau.*

5. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Nodwyd adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun fel y'i dosbarthwyd . Cafodd y cyhoeddiad ynghylch y Gronfa Ffyniant Bro ei wneud ar ôl cyflwyno'r adroddiad a chroesawyd y newyddion a chafwyd trafodaeth ar y mater.
Rhoddodd y Cynghorwyr Sir y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor yn dilyn cyfarfod ar safle llwybr Cwninger y Dref. Roedd y rhan o'r wal wedi'i nodi fel un â risg ac roedd gwaith i fod i gael ei wneud i ddatrys y broblem ond yn anffodus disgynnodd y wal cyn y gellid gwneud y gwaith. Bydd y gwaith o glirio'r llwybr yn dechrau cyn gynted â phosibl cyn y prif waith o atgyweirio'r wal.
Mynegwyd pryder ynghylch goleuadau stryd yng Nghanol y Dref ac roedd Cyngor Sir

Ddinbych yn atgoffa'r Asiantaeth Cefnffyrdd gan fod y mater wedi'i godi'n flaenorol.
PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun.*

6. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2022 yn gywir.*

7. MATERION YN CODI

Nid oedd materion yn codi.

8. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023. Tynnwyd sylw at un newid a oedd angen ei wneud.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023.*

9. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023.*

10. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023.*

11. DIWEDDARIAD GAN Y TÎM PLISMONA LLEOL

Gan nad oedd Rhingyll newydd wedi'i benodi eto i gymryd lle'r Rhingyll Richard Evans, roedd y Rhingyll Martin Jones wedi rhoi diweddariad llafar i'r Cynghorydd Anne Roberts. Nid oedd problemau mawr i'w nodi.
PENDERFYNWYD*: nodi'r adroddiad llafar.*

12. CAIS I'R GRONFA FFYNIANT BRO – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF YNGHYLCH Y CYHOEDDIAD DIWEDDAR GAN GYNNWYS YR HYN A GANLYN:

Cyflwynodd y Maer yr eitem nesaf am lwyddiant y cais am arian o'r Gronfa Ffyniant Bro. Roedd pawb yn croesawu llwyddiant y cais a mynegodd y Maer ei diolch ar ran y Cyngor i'r holl bartneriaid a fu ynghlwm â'r cais.
Cynigiodd y Cynghorydd Gavin Harris bod digwyddiad cymdeithasol yn cael ei drefnu i bartneriaid, swyddogion ac aelodau a fu ynghlwm â'r cais ddod ynghyd i baratoi ar gyfer y gwaith sydd o'u blaenau i gyflawni'r prosiectau a ariennir.
PENDERFYNWYD*:* y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r digwyddiad hwn ac y dylid ei gynnal cyn gynted â phosibl.
.

13. DAVID JONES AS

Ymunodd David Jones, Aelod Seneddol Gorllewin Clwyd â'r cyfarfod drwy Zoom.
Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ei drafodaethau cynnar gyda Chyngor Sir Ddinbych, gan eu hatgoffa bod ganddynt ddwy flynedd i gwblhau'r gwaith ar y prosiectau. Mae ganddo eu hymrwymiad i gysylltu ac ymgynghori'n gynnar â phartneriaid y cais tra'u bod yn sefydlu fframwaith rheoli prosiectau. Diolchodd i'r Cyngor ac i bawb a fu ynghlwm â'r hyn a

gyflawnwyd, ac ailadroddodd ei gefnogaeth i gwblhau'r prosiectau. Dywedodd eu bod yn drawsnewidiol i Rhuthun ac addawodd weithio i uchafu gwerth y wobr gyda'r holl bartneriaid.

PENDERFYNIAD*:Cynigiodd David Jones AS ei gefnogaeth barhaus i gyflawni'r prosiectau a ariennir drwy'r gronfa.*

14. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR ARGYFWNG HINSAWDD

Linc You tube i Gaffi Trwsio Rhuthun sy'n cael cyhoeddusrwydd gan Gyfeillion y Ddaear. . (Paste link here)
Eglurodd y Cynghorwyr Mike van der Eijk a Heather Williams fod y Caffi Trwsio yn cael sylw cenedlaethol a bod Cyfeillion y Ddaear yn gweld cynnydd mewn aelodaeth a chyfranogiad yn lleol.
Tynnodd cyfarfod diweddar gyda Mark Ellis sylw at syniadau o ran gwaredu gwastraff ac roeddent yn gobeithio ymchwilio iddynt ymhellach.
Atgoffwyd yr Aelodau bod camera delweddu thermol ar gael gan Gyfeillion y Ddaear, Rhuthun.
Y bwriad yw i drigolion ofyn am arolwg er mwyn dod o hyd i fannau posibl lle mae gwres yn cael ei golli o'u cartrefi, ynghyd â chanfod allyriadau sy'n niweidio'r amgylchedd. Mae manteision i'r amgylchedd ac i bocedi pobl yn y dyddiau hyn o gynnydd mewn costau byw.

PENDERFYNIAD*: Gofynnwyd i'r Aelodau gael golwg ar y fideo gan Gyfeillion y Ddaear ac hefyd i roi cyhoeddusrwydd i'r Camera Delweddu Thermol*

15. CYLLIDEB AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2023-24

Cynigiwyd bod Is-bwyllgor Ariannol yn cael ei sefydlu i bennu'r gyllideb a'r praesept.
Byddai'n cynnwys yr Aelodau a ganlyn:
Gavin Harris Jabez Oakes, Anne Roberts, Peter Daniels, Mike Van der Eijk, Menna Jones y Maer, gyda chefnogaeth gan y Clerc a'r Dirprwy Glerc.
Cynigiwyd bod yr Is-bwyllgor yn cyfarfod yr wythnos ganlynol ac y dylid gofyn am wybodaeth berthnasol gan Gyngor Sir Ddinbych a dylai'r is-bwyllgor gyflwyno'u canfyddiadau i'r Cyngor llawn.

PENDERFYNWYD*: Trafod y gyllideb a'r praesept yn yr Is-bwyllgor Cyllid*

190. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyniodd yr Aelodau'r datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022.
PENDERFYNIAD: *Dywedwyd fod rhai adrannau yn amcangyfrifon a oedd ar goll o'r ffigurau a ddarparwyd gan y cyfrifwyr a byddai hyn yn cael ei ystyried ar gyfer datganiadau yn y dyfodol. Hefyd penderfynwyd derbyn y datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022.*

191. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r taliadau a ganlyn.*

Cynghorydd Menna Jones	Ad-daliad am gysuron Nadolig gan y Maer	*	£58.59
Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd	*	£270
Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu ar gyfer	*	£90

	cyfweliadau		
Snowdonia Fire & Security	Gwasanaeth i'r Larwm Tân a'r Diffoddwr Tân		£261.96
Total Energies	Tâl sefydlog am Nwy		£66.08
Microsoft	Ad-daliad i Sian Clark am danysgrifiad rheolaidd	*	£18.96
Canda Copying	Rhentu copïwr	*	£41.90
Cyngor Sir Ddinbych	Goleuadau Nadolig		£5422.25
Fineline	Cyflenwi cerdyn	*	£14.40

192. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod arferol nesaf fydd nos Lun 20 Chwefror 2023 am 7pm.*